

## Tasg 1

(Craidd, sbardun 3)

1. Mae llawer o ansoddeiriau, neu eiriau sy'n disgrifio, yn y darn. Rhestrwch nhw isod yn y drefn maen nhw'n ymddangos, e.e.

*uchaf*  
*mwyafr anodd*  
*cyffrous*

2. Pa fath o berson sy'n cystadlu yn y ras hon, yn eich barn chi? Rhestrwch gymaint o ansoddeiriau a disgrifiadau â phosib, e.e.

*Person ...*  
*anturus*  
*dewr*

*Person sy'n ...*

3. Rydych chi eisiau cymryd rhan yn y ras hon, felly rhaid i chi ysgrifennu at y swyddogion. Ysgrifennwch ddarn sy'n egluro pam rydych chi eisiau cymryd rhan a pham y dylech chi gael eich dewis. Gallech chi:

- sôn am eich profiad yn beicio / beicio mynydd
- disgrifio pa fath o feic sydd gennych chi
- egluro pa fath o berson ydych chi – cofiwch ddefnyddio rhai o'r ansoddeiriau a'r disgrifiadau rydych chi wedi eu rhestru uchod.
- rhoi unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol.

Os nad ydych chi eisiau cymryd rhan yn y ras, gallech chi ysgrifennu ar ran eich ffrind, gan ddweud pam y dylai gael ei ddewis.